**Polisi Asesu Effaith Integredig**

**Rheoli Fersiynau**

| Rhif y Fersiwn | Noddwr ym Mwrdd Gweithredol y Brifysgol | Corff/Swyddog Cymeradwyo | Dyddiad cymeradwyo |
|---|---|---|---|
| V_03 | Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol | Bwrdd Gweithredol y Brifysgol | 08/10/2024 |

Cyhoeddwyd yn unol â gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

## 1. DIBEN

1.1. Diben y Polisi Asesu Effaith Integredig yw egluro'r gofynion o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017, Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, a Deddf Cydraddoldeb 2010, a nodi'r strwythurau a'r prosesau ar gyfer hwyluso cydymffurfiaeth.

1.2. Mae'r polisi hwn yn egluro'r gofyniad i'r Brifysgol gynnal Asesiadau Effaith Integredig (IIA) ar weithgarwch perthnasol o ran gwneud penderfyniadau, er mwyn hwyluso cydymffurfiaeth â'r rheoliadau a'r ddeddfwriaeth.

1.3. Mae IIA yn offeryn i helpu i wneud gwell penderfyniadau, a dylid ei ddefnyddio mewn ffordd gymesur i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau. Os nad asesir yr effaith, yna mae'r Brifysgol yn agored i her gyfreithiol, ac nid yw'n sicrhau bod trywydd archwilio ar waith i ddangos tystiolaeth o gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth/rheoliadau.

1.4. Mae'r polisi hwn hefyd yn cyflwyno'r gofyniad i offeryn brysbennu gael ei gwblhau i helpu i arwain staff a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i wybod pryd y mae angen cynnal asesiad effaith.

1.5. Bydd Asesiadau Effaith Integredig yn disodli'r fframwaith a'r broses o Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## 2. CWMPAS

2.1. Nodir y dyletswyddau cyfreithiol yn Atodiad A.

2.2. Mae canllawiau ar yr hyn sy'n gyfystyr â pholisi neu arfer, a fyddai'n gofyn am Asesiad, ar gael yma. Cysylltwch â Complianceandrisk@caerdydd.ac.uk os ydych yn ansicr.

2.3. Bydd polisïau neu arferion sydd â'r potensial i effeithio ar bobl o fewn cwmpas y polisi hwn. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau ynghylch a ddylid dileu neu derfynu polisi, gweithdrefn, prosiect, strategaeth, gwasanaeth neu swyddogaeth.

2.4. Os nad oes yna bolisi presennol sy'n rheoli'r penderfyniad dan ystyriaeth, yna mae'n debygol o fod yn benderfyniad polisi sy'n gofyn am asesiad effaith.

## 3. POLISI

3.1. Yng ngham y cysyniad cychwynnol, rhaid llenwi Ffurflen Brysbennu IIA i bennu a oes angen cynnal Asesiad. Lle nad oes Asesiadau Effaith Integredig yn ofynnol, dylid gwneud ystyriaethau anffurfiol a chofnodi'r rhain, ynghyd ag unrhyw addasiadau, ar y ffurflen brysbennu.

3.2. Bydd y Tîm Cydymffurfiaeth a Risg hefyd yn adolygu'r ffurflenni brysbennu ac yn rhoi cyngor ychwanegol lle bo angen.

3.3. Os bydd y ffurflen brysbennu yn nodi bod Asesiad Effaith Integredig yn ofynnol, rhaid cychwyn Asesiad llawn yn ystod cam syniad cychwynnol y polisi er mwyn helpu i lywio'r broses ddatblygu. Dylai hyn gael ei wneud gan rywun sy'n gysylltiedig â'r polisi, y weithdrefn, y prosiect, y strategaeth, y gwasanaeth neu'r swyddogaeth.

3.4. Dylai'r amser a'r ymdrech a neilltuir i gynnal yr Asesiad fod yn gymesur â'r penderfyniad sy'n cael ei wneud. Efallai na fydd angen cynnal Asesiad o elfennau unigol o'r gwaith sy'n cael ei gyflawni i roi polisi/gweithgaredd ar waith. Er enghraifft, ni fyddem yn defnyddio IIA i benderfynu a oedd polisi recriwtio/dethol yn gwahaniaethu yn erbyn un person, ond byddem yn ei ddefnyddio i lunio polisi recriwtio/dethol cynhwysol o'r cychwyn cyntaf, neu i adolygu a diweddaru polisi presennol. Dylid ystyried nifer y bobl yr effeithir arnynt, ynghyd ag effaith arfaethedig y gwaith, wrth benderfynu a ddylid cynnal IIA.

3.5. Po fwyaf yw effaith niweidiol bosibl y gwasanaeth, y polisi, y strategaeth, yr arfer, neu'r cynllun arfaethedig ar grŵp gwarchodedig a/neu po fwyaf agored i niwed yw'r grŵp yn y cyd-destun sy'n cael ei ystyried, mwyaf trylwyr a heriol fydd y broses IIA sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth.

3.6. Bydd Asesiad Effaith Integredig ym Mhrifysgol Caerdydd yn gwneud y canlynol:

- nodi unrhyw effaith ar y Gymraeg (cadarnhaol, negyddol, dim effaith neu gyfuniad)
- nodi ffyrdd o hybu'r Gymraeg, gan gynnwys y defnydd o'r Gymraeg
- lleihau unrhyw effeithiau niweidiol ar y Gymraeg

- rhoi tystiolaeth o ystyriaeth gydwybodol o'r effaith ar y Gymraeg
- nodi unrhyw effaith ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig penodol (cadarnhaol, negyddol, dim effaith neu gyfuniad)
- cymryd camau i ddileu neu liniaru effeithiau niweidiol ar y rhai sydd â nodwedd warchodedig.
  Os na ellir osgoi effeithiau niweidiol, rhaid i'r Asesiad ddangos bod y Brifysgol wedi ystyried yn briodol y rhesymau dros fwrw ymlaen â phenderfyniad er gwaethaf yr effaith, a rhaid iddi feddu ar dystiolaeth glir bod y penderfyniad yn gymesur ac yn gyfreithlon yng nghyd-destun hyrwyddo cydraddoldeb yn gyffredinol.
- rhoi cyfle i dynnu sylw at y potensial ar gyfer effaith gadarnhaol yr hyn a wnawn
- dangos bod y Brifysgol wedi rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd gyffredinol i ddileu gwahaniaethu/hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a chysylltiadau da.

Mae arweiniad ar gael yma: Gweithdrefn IIA – Canllawiau i staff, sy'n rhoi trosolwg o'r modd y bydd y Brifysgol yn ymgorffori Asesiadau Effaith Integredig yn ei phenderfyniadau.

3.7. Rhaid cyflwyno Asesiadau a gynhaliwyd ar y cyd â phapurau cynnig i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofyniad cyfreithiol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Cymru), a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 i gynnal a chofnodi Asesiad Effaith. Dylai'r broses hon gael ei chyflawni yn ystod y cam trafod a datblygu er mwyn sicrhau ei bod yn rhan wirioneddol o'r broses gwneud penderfyniadau. Rhaid i'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau adolygu'r Asesiad cyn gwneud eu penderfyniad terfynol. Ar ôl cynnal yr Asesiad, rhaid ei anfon hefyd at y tîm Cydymffurfiaeth a Risg yn Complianceandrisk@caerdydd.ac.uk.

3.8. Rhaid i bob penderfyniad ystyried yr effaith ar y Gymraeg a chydraddoldeb mewn ffordd sy'n gymesur â'r penderfyniad a wneir.

3.9. Bydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau (gan gynnwys y Cyngor/y Senedd/y Bwrdd Gweithredol/Bwrdd y Coleg/a Staff Uwch trwy benderfyniadau dirprwyedig) yn gweithredu fel 'porthgeidwaid', gan sicrhau bod yr effaith ar y Gymraeg a chydraddoldeb yn cael ei chrynhoi ar ddalenni blaen papurau pwyllgorau, a bod yr asesiad effaith llawn yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr â'r ddalen flaen i ddangos cydymffurfiaeth ac i lywio'r drafodaeth.

## 4. ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

4.1. Y Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol yw noddwyr Bwrdd Gweithredol y Brifysgol ar gyfer y polisi hwn.

4.2. Yr Uwch-gynghorydd Cydymffurfiaeth a Swyddog Iaith Gymraeg y Tîm Cydymffurfiaeth a Risg (Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol) yw perchennog y polisi.

4.3. Mae perchnogion cynigion yn gyfrifol am sicrhau bod Asesiad Effaith Integredig wedi'i gynnal lle bo'n berthnasol, a'i gyflwyno i'w gymeradwyo yn unol â'r polisi hwn. Yn achos penderfyniadau eraill, bydd pob Is-Ganghellor Coleg, Pennaeth Ysgol, Cyfarwyddwr, Sefydliad Ymchwil, Pennaeth Gwasanaeth Proffesiynol, a Bwrdd Gweithredol y Brifysgol yn gyfrifol am sicrhau bod eu priod feysydd yn cydymffurfio â gofynion y polisi hwn.

4.4. Bydd y Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol yn sicrhau bod camau priodol (gan gynnwys hyfforddiant) wedi'u cymryd i sicrhau bod yr uwch-arweinwyr yn ymwybodol o ofynion a goblygiadau'r polisi hwn ac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddosbarthu gwybodaeth i'r staff sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau polisi yn eu priod feysydd.

## 5. POLISÏAU CYSYLLTIEDIG

5.1. Mae'r polisi hwn yn rhan o fframwaith cyngor ehangach sy'n berthnasol i'r Gymraeg a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac sy'n cefnogi cydymffurfiaeth â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017, Deddf Cydraddoldeb (2010) a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

5.2. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r canlynol:

- Yr Offeryn Asesu Effaith Integredig
- Y Weithdrefn Asesu Effaith Integredig – Canllawiau i staff
- Y Ffurflen Brysbennu Asesiad Effaith Integredig

5.3. Mae yna hefyd gysylltiad rhyngddo â pholisïau eraill y Brifysgol, yn benodol:

- Polisi Safonau Cyflenwi Gwasanaethau'r Gymraeg
- Dyfarnu Grantiau a Chymorth Ariannol – Polisi a Gweithdrefn Ystyriaethau o ran y Gymraeg
- Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg
- Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Gallwch ddod o hyd i'r polisïau hyn ar y fewnrwyd.

## 6. YMHOLIADAU

6.1. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau ynghylch y polisi a'r weithdrefn hon, cysylltwch â'r tîm Cydymffurfiaeth a Risg trwy e-bost: compliancandrisk@caerdydd.ac.uk.

## 7. MONITRO AC ADOLYGU

7.1. Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n anffurfiol yn flynyddol gan Berchennog y Polisi, a'i adolygu'n ffurfiol bob tair blynedd.

7.2. Bydd y tîm Cydymffurfiaeth a Risg yn monitro'r defnydd o'r offeryn IIA trwy asesu nifer y polisïau a gyflwynir i Fwrdd Gweithredol y Brifysgol ac sy'n cynnwys Asesiad o'r fath. Lle canfyddir bylchau, cysylltir yn uniongyrchol ag adrannau i gynnig hyfforddiant a chefnogaeth i gynyddu ymwybyddiaeth a chydymffurfiaeth â'r gofynion.

7.3. Lle daw unrhyw dueddiadau i'r amlwg, tynnir sylw Bwrdd y Gwasanaethau Proffesiynol/y Grŵp Cydymffurfiaeth a Risg atynt i'w trafod.

## 8. GWYBODAETH RHEOLI FERSIYNAU

| | |
|---|---|
| Enw'r Ddogfen | Polisi Asesu Effaith Integredig |
| Noddwr y Polisi ym Mwrdd Gweithredol y Brifysgol | Y Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol |
| Perchennog y Polisi | Uwch-gynghorydd Cydymffurfiaeth a Swyddog y Gymraeg |
| Awdur(on) y Polisi | Thomas Tudor Jones, Uwch-gynghorydd Cydymffurfiaeth a Swyddog y Gymraeg, y Tîm Cydymffurfiaeth a Risg, Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol |
| Rhif y Fersiwn | V0_4 |
| Dyddiad Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg | Ionawr 2024 |
| Dyddiad Asesu'r Effaith ar Breifatrwydd (lle bo'n berthnasol) | Amh. |
| Dyddiad Cymeradwyo | 08/10/2024 |
| Cymeradwywyd gan | Bwrdd Gweithredol y Brifysgol |
| Dyddiad Gweithredu | Hydref 2024 |
| Dyddiad yr Adolygiad Diwethaf | Hydref 2024 |
| Dyddiad yr Adolygiad Nesaf | Hydref 2027 |

**Cofnod o Newidiadau**

Dylai'r Awdur lenwi'r tabl isod bob tro y gwneir newid i'r polisi

| Fersiwn ddiwygiedig a dyddiad yr adolygiad | Adolygydd(adolygwyr) | Disgrifiad o'r newid | Fersiwn a grëwyd |
|---|---|---|---|
| V_01 Mai 2021 | Thomas Tudor Jones | Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr yn dilyn argymhellion | Polisi Asesu Effaith Integredig V_01 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | yr archwiliad, gyda ffocws ar gynyddu dealltwriaeth o union safonau'r Gymraeg. Gwnaethpwyd hyn i wella cydymffurfiaeth yn seiliedig ar adborth gan y rheolydd. | |

**Atodiad A – Y Dyletswyddau Cyfreithiol**

**Y Gymraeg**

Mae Safonau Iaith Gymraeg 94, 95 a 96 yn ei gwneud yn ofynnol i Brifysgol Caerdydd sicrhau:

- bod y sawl sy'n gwneud, yn adolygu neu'n diwygio penderfyniad polisi yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (boed yn gadarnhaol neu'n niweidiol), y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael o ran:
    - cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, neu
    - sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg

- bod y sawl sy'n gwneud, yn adolygu neu'n diwygio penderfyniad polisi yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad fel ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau mwy cadarnhaol o ran
    - cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, neu
    - sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg

- bod y sawl sy'n gwneud, yn adolygu neu'n diwygio penderfyniad polisi yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad fel nad yw'n cael effeithiau niweidiol, neu fel ei fod yn cael effeithiau llai niweidiol o ran
    - cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, neu
    - sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg

Bydd Asesiad Effaith Integredig (IIA) yn galluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ystyried yr effaith, y mesurau lliniaru a allai leihau unrhyw effeithiau negyddol, neu'r ymyriadau a allai gynyddu effeithiau cadarnhaol ar y meysydd allweddol canlynol, yn unol â gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017:

- **cyfleoedd i hybu'r Gymraeg**
e.e. statws y Gymraeg, y defnydd o wasanaethau'r Gymraeg, defnydd ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd yn y gwaith, ar y campws ac yn y gymuned, amlygrwydd y Gymraeg a chyfleoedd i ddysgu Cymraeg neu ddatblygu sgiliau Cymraeg.

- **cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg**
e.e. annog cynnydd o ran sgiliau neu ddefnydd presennol gan aelodau Cymraeg eu hiaith o'n cymuned, gan gynnwys dysgwyr Cymraeg, a hyrwyddo mwy o ddefnydd o'n gwasanaethau Cymraeg a defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, gan gynnwys defnydd o'r Gymraeg trwy dechnolegau digidol, gan staff, myfyrwyr, darpar fyfyrwyr, ac ymwelwyr.

- **niferoedd a/neu ganrannau'r siaradwyr Cymraeg**
e.e. seilwaith cymdeithasol, economaidd a diwylliannol cymunedau Cymraeg eu hiaith, trosglwyddo'r Gymraeg ac ymdrechion i warchod a hyrwyddo'r Gymraeg. Addysg/Cyfleoedd Astudio Cyfrwng Cymraeg. Cysylltiadau â Strategaeth

Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru/Strategaeth Prifysgol Caerdydd ar gyfer y Gymraeg – Yr Alwad.

- **cydymffurfio â Safonau Iaith Gymraeg statudol y Brifysgol**

e.e. cynyddu gallu'r Brifysgol i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

- **sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg**

**Cydraddoldeb**

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol roi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, ynghyd ag ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal ymhlith pobl sy'n meddu ar nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn meddu ar nodwedd o'r fath;
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n meddu ar nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn meddu ar nodwedd o'r fath.

Er mwyn dangos ei bod wedi rhoi 'sylw dyledus' i effaith bosibl ei pholisïau, ei phrosesau a'i phenderfyniadau ar y 'nodweddion gwarchodedig' a nodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rhaid i'r brifysgol gynnal asesiad o'r effaith, sy'n rhan o'n Hasesiad Effaith Integredig (IIA) ym Mhrifysgol Caerdydd, mewn perthynas â newid swyddogaeth, polisi neu arfer.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y nodweddion gwarchodedig yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil (ym maes cyflogaeth), hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol.

Bydd IIA yn galluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ystyried y canlynol mewn perthynas â'r Ddeddf Cydraddoldeb a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED).

- A oes yna unrhyw wahaniaethu uniongyrchol?
- A oes yna unrhyw botensial ar gyfer gwahaniaethu anuniongyrchol?
- Beth yw'r effeithiau niweidiol posibl ar y rheiny sydd â nodweddion gwarchodedig, a sut yr eir i'r afael â nhw?
- Sut y gallwn hyrwyddo cynhwysiant ac amlygu tegwch yn ein gweithgareddau, a dangos bod ein penderfyniadau yn cael eu hystyried, yn deg, ac yn dryloyw, gan atgyfnerthu ein gwerth a'n hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant?

O dan y Dyletswyddau Penodol i Gymru sy'n rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n rhaid gwneud trefniadau i gyhoeddi adroddiadau os yw'r asesiad yn dangos bod effaith sylweddol yn debygol ar allu awdurdod i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol.